



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 295 (Cy. 67)

2020 No. 295 (W. 67)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

**The Food Information (Wales)
(Amendment) (No. 2) Regulations
2020**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2303 (Cy. 227)).

These Regulations amend the Food Information (Wales) Regulations 2014 (S.I. 2014/2303 (W. 227)).

Mae rheoliad newydd 5A, sydd wedi ei fewnosod gan reoliad 2(3) o'r offeryn hwn, yn darparu bod rhaid i fwydydd sydd wedi eu rhagbecynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol, pa un a ydynt yn cael eu cyflenwi i ddefnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr, gael rhestr cynhwysion, yn cynnwys gwybodaeth am alergenau, wedi ei darparu'n uniongyrchol ar y pecyn neu ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn. Mae eithriad ar gyfer deunydd pecynnu neu gynwysyddion y mae eu harwyneb mwyaf yn llai na 10cm². Mae eithriad hefyd pan fo cynnig i werthu wedi ei wneud drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

New regulation 5A, inserted by regulation 2(3) of this instrument, provides that food that is prepacked for direct sale, whether supplied to a final consumer or to a mass caterer, must have a list of ingredients, including allergen information, provided directly on the package or on a label attached to the package. There is an exemption for packaging or containers the largest surface of which has an area of less than 10cm². There is also an exemption where an offer for sale is made by means of distance communication.

Mae rheoliad newydd 6A, sydd wedi ei fewnosod gan reoliad 2(5) o'r offeryn hwn, yn darparu bod rhaid i fwydydd sydd wedi eu rhagbecynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol, pa un a ydynt yn cael eu cyflenwi i ddefnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr, gael enw'r bwyd wedi ei ddarparu'n uniongyrchol ar y pecyn neu ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn. Mae eithriad pan fo cynnig i werthu wedi ei wneud drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

New regulation 6A, inserted by regulation 2(5) of this instrument, provides that food that is prepacked for direct sale, whether supplied to a final consumer or to a mass caterer, must have the name of the food provided directly on the package or on a label attached to the package. There is an exemption where an offer for sale is made by means of distance communication.

Mae rheoliad 2(2) a (4) yn diwygio rheoliadau 5 a 6 o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 fel nad yw'r darpariaethau hynny yn gymwys mwyach i fwydydd sydd wedi eu rhagbecynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol.

Regulation 2(2) and (4) amends regulations 5 and 6 of the Food Information (Wales) Regulations 2014 so that those provisions no longer apply to food that is prepacked for direct sale.

Mae rheoliad 2(6), (7) a (9) yn diwygio'r darpariaethau gorfodi yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 er mwyn adlewyrchu bod rheoliadau newydd 5A a 6A wedi eu mewnosod.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am y Rheoliadau hyn ar ffurf ddrafft yn unol â Chyfarwyddeb (EU) 2015/1535 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes rheoliadau technegol a rheolau sy'n ymwneud â gwasanaethau'r Gymdeithas Wybodaeth (OJ Rhif L 241, 17.9.2015, t. 1).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn: Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, 11^{eg} Llawr, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW neu oddi ar wefan yr Asiantaeth yn www.food.gov.uk/cy.

Regulation 2(6), (7) and (9) amends the enforcement provisions of the Food Information (Wales) Regulations 2014 to reflect the insertion of new regulations 5A and 6A.

These Regulations were notified in draft to the European Commission in accordance with Directive (EU) 2015/1535 of the European Parliament and of the Council) laying down a procedure for the provision of information in the field of technical regulations and of rules on Information Society Services (OJ No L 241, 17.9.2015, p. 1).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Food Standards Agency at Food Standards Agency Wales, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW or from the Agency's website at www.food.gov.uk.

2020 Rhif 295 (Cy. 67)

2020 No. 295 (W. 67)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

**The Food Information (Wales)
(Amendment) (No. 2) Regulations
2020**

Gwnaed 13 Mawrth 2020
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 17 Mawrth 2020
Yn dod i rym 1 Hydref 2021

Made 13 March 2020
*Laid before the National Assembly for
Wales* 17 March 2020
Coming into force 1 October 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(e), 26(3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), ac, mewn perthynas â rheoliad 2(3), (5) ac (8), gan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e), 26(3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1), and, in relation to regulation 2(3), (5) and (8), by paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(2).

-
- (1) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 16(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) (“Deddf 1999”). Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Mae’r swyddogaethau hynny a oedd gynt yn arferadwy gan “the Ministers” bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i’r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y’i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a’u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
- (2) 1972 p. 68. Mae Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (“Deddf 1972”) wedi ei diddymu gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) (“Deddf 2018”) gan gael effaith o’r diwrnod ymadael (“exit day”). Mae “exit day” wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu (“IP completion day”), yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) (“Deddf 2020”). Mae “IP completion day” wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac fe’i diwygiwyd gan Ran 1 o’r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) ac O.S. 2007/1388.

-
- (1) 1990 c. 16. Section 16(1) was amended by paragraph 8 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c. 28) (“the 1999 Act”). Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 48(1) was amended by paragraph 8 of Schedule 5 to the 1999 Act. Those functions formerly exercisable by “the Ministers” are now exercisable in relation to England by the Secretary of State pursuant to paragraph 8 of Schedule 5 to the 1999 Act. Those functions, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 as read with section 40(3) of the 1999 Act, and subsequently transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
- (2) 1972 c. 68. The European Communities Act 1972 (“the 1972 Act”) was repealed by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) (“the 2018 Act”) with effect from exit day. “Exit day” is defined in section 20 of the 2018 Act as 31 January 2020 at 11pm. Despite that repeal the 1972 Act continues to have effect with modifications until IP completion day, by virtue of section 1A of the 2018 Act. Section 1A was inserted by section 1 of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1) (“the 2020 Act”). “IP completion day” is defined in section 1A as 31 December 2020 at 11pm (the meaning given in section 39 of the 2020 Act). Paragraph 1A of Schedule 2 to the 1972 Act was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and amended by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7) and S.I. 2007/1388.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr(1), a fewnosdir yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(2) gan rheoliad 2(3) a (5) o'r Rheoliadau hyn, gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Rheoliad yr UE hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

I'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A)(3) o'r Ddeddf honno.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2021.

Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

2.—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5 (bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnau etc. sy'n cynnwys sylwedd neu gynnyrch alergenaidd etc.), ym mharagraff (2)—

- (a) yn is-baragraff (a), ar ôl "ragbecynnau," mewnosoder "neu";
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle "neu" rhodder "·";

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council on the provision of food information to consumers(1), inserted into the Food Information (Wales) Regulations 2014(2) by regulation 2(3) and (5) of these Regulations, to be construed as references to that EU Regulation as amended from time to time.

So far as these Regulations are made in exercise of powers under the Food Safety Act 1990, the Welsh Ministers have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency in accordance with section 48(4A)(3) of that Act.

There has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(4).

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Food Information (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force on 1 October 2021.

Amendment of the Food Information (Wales) Regulations 2014

2.—(1) The Food Information (Wales) Regulations 2014 are amended as follows.

(2) In regulation 5 (foods that are not prepacked etc. containing an allergenic substance or product etc.), in paragraph (2)—

- (a) in sub-paragraph (a), after "prepacked," insert "or";
- (b) in sub-paragraph (b), for "·" substitute "·";

(1) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t. 18, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2015/2283 (OJ Rhif 327, 11.12.2015, t. 1).

(2) O.S. 2014/2303 (Cy. 227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/664 (Cy. 181); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(3) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(4) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2019/1243 (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

(1) OJ No L 304, 22.11.2011, p. 18, last amended by Regulation (EU) 2015/2283 (OJ No 327, 11.12.2015, p. 1).

(2) S.I. 2014/2303 (W. 227), amended by S.I. 2016/664 (W. 181); there are other amending instruments but none is relevant.

(3) Section 48(4A) was inserted by paragraph 21 of Schedule 5 to the 1999 Act.

(4) OJ No L 31, 1.2.2002, p. 1, last amended by Regulation (EU) No 2019/1243 (OJ No L 198, 25.7.2019, p. 241).

(c) hepgorer is-baragraff (c).

(3) Ar ôl rheoliad 5, mewnosoder—

“Bwydydd sydd wedi eu rhagbecynnu i’w gwerthu’n uniongyrchol – dyletswydd i restru cynhwysion

5A.—(1) Rhaid i weithredwr busnes bwyd sy’n cynnig gwerthu bwyd y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo ddarparu’n uniongyrchol ar y pecyn neu ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn y manylion sy’n ofynnol o dan y canlynol—

- (a) Erthygl 9(1)(b) (rhestr cynhwysion), fel y’i darllenir gyda’r canlynol—
 - (i) Erthygl 13(1) i (3),
 - (ii) Erthygl 15,
 - (iii) Erthygl 16(2), i’r graddau y mae’n ymwneud â’r manylion sy’n ofynnol o dan Erthygl 9(1)(b),
 - (iv) Erthygl 17, fel y’i darllenir gyda Rhannau A ac C o Atodiad 6 ac, yn achos cynhwysyn sy’n defnyddio dynodiad briwgig fel enw, y pwyntiau canlynol o Ran B o Atodiad 6—
 - (aa) pwynt 1, a
 - (bb) pwynt 3, fel y’i darllenir gyda rheoliad 4 ac Atodlen 2,
 - (v) Erthygl 18, fel y’i darllenir gydag Atodiad 7 a pharagraff (1)(a)(iv) o’r rheoliad hwn,
 - (vi) Erthygl 19(1), a
 - (vii) Erthygl 20;
- (b) Erthygl 9(1)(c) (labelu sylweddau neu gynhyrchion penodol sy’n peri alergeddau neu anoddefeddau) fel y’i darllenir gydag Erthygl 21(1) ac Atodiad 2.

(2) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd—

- (a) a gynigir i’w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr ac eithrio drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell, a
- (b) sydd wedi ei ragbecynnu i’w werthu’n uniongyrchol.”

(4) Yn rheoliad 6 (bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. – gofyniad cyffredinol i’w henwi), ym mharagraff (2)—

- (a) yn is-baragraff (a), ar ôl “ragbecynnu,” mewnosoder “neu”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “, neu” rhodder “.”;

(c) omit sub-paragraph (c).

(3) After regulation 5, insert—

“Foods that are prepacked for direct sale – duty to list ingredients

5A.—(1) A food business operator who offers for sale a food to which this regulation applies must provide directly on the package or on a label attached to the package the particulars required by the following—

- (a) Article 9(1)(b) (list of ingredients), as read with—
 - (i) Article 13(1) to (3),
 - (ii) Article 15,
 - (iii) Article 16(2), so far as it relates to the particulars required by Article 9(1)(b),
 - (iv) Article 17, as read with Parts A and C of Annex 6 and, in the case of an ingredient using a minced meat designation as a name, the following points of Part B of Annex 6—
 - (aa) point 1, and
 - (bb) point 3, as read with regulation 4 and Schedule 2,
 - (v) Article 18, as read with Annex 7 and paragraph (1)(a)(iv) of this regulation,
 - (vi) Article 19(1), and
 - (vii) Article 20;
- (b) Article 9(1)(c) (labelling of certain substances or products causing allergies or intolerances) as read with Article 21(1) and Annex 2.

(2) This regulation applies to a food that—

- (a) is offered for sale to a final consumer or to a mass caterer otherwise than by means of distance communication, and
- (b) is prepacked for direct sale.”

(4) In regulation 6 (foods that are not prepacked etc. – general requirement to name them), in paragraph (2)—

- (a) in sub-paragraph (a), after “prepacked,” insert “or”;
- (b) in sub-paragraph (b), for “, or” substitute “.”;

(c) hepgorer is-baragraff (c).

(5) Ar ôl rheoliad 6, mewnosoder—

“Bwydydd sydd wedi eu rhagbecynnu i’w gwerthu’n uniongyrchol – gofyniad cyffredinol i’w henwi

6A.—(1) Rhaid i weithredwr busnes bwyd sy’n cynnig gwerthu bwyd y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo ddarparu’r manylion sy’n ofynnol o dan Erthygl 9(1)(a) (enw’r bwyd), fel y’i darllenir gyda’r canlynol—

- (a) Erthygl 17(1) i (4),
- (b) Rhan A o Atodiad 6, ac
- (c) yn achos bwyd a gynigir i’w werthu gan ddefnyddio dynodiad briwrig yn enw—
 - (i) Erthygl 17(5),
 - (ii) pwynt 1 o Ran B o Atodiad 6, a
 - (iii) pwynt 3 o Ran B o Atodiad 6, fel y’i darllenir gyda rheoliad 4 ac Atodlen 2.

(2) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd—

- (a) a gynigir i’w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr, a
- (b) sydd wedi ei ragbecynnu i’w werthu’n uniongyrchol.

(3) Rhaid i’r manylion ym mharagraff (1) gael eu darparu’n uniongyrchol ar y pecyn neu ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn, ac eithrio yn achos cynnig i werthu a wneir drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell.”

(6) Yn rheoliad 10(1) (trosedd)—

- (a) yn is-baragraff (b), hepgorer “neu”;
- (b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—
“*(ba)* â rheoliad 5A(1)(b); neu”.

(7) Yn rheoliad 12 (cymhwyso darpariaethau’r Ddeddf), ym mharagraff (1)(a)—

- (a) ar ôl paragraff (ii), mewnosoder—
“*(iia)* rheoliad 5A(1);”;
- (b) ar ôl paragraff (iii), mewnosoder—
“*(iiia)* rheoliad 6A(1) neu (3);”.

(8) Yn Atodlen 1 (darpariaethau y Rheoliadau hyn sy’n cynnwys cyfeiriadau newidiadwy at FIC neu Reoliad 828/2014 yn rhinwedd rheoliad 2(3)), mewnosoder y cofnodion a ganlyn yn y lleoedd priodol—

- “Rheoliad 5A(1)”;
- “Rheoliad 6A(1)”.

(c) omit sub-paragraph (c).

(5) After regulation 6, insert—

“Foods that are prepacked for direct sale – general requirement to name them

6A.—(1) A food business operator who offers for sale a food to which this regulation applies must provide the particulars required by Article 9(1)(a) (the name of the food), as read with—

- (a) Article 17(1) to (4),
- (b) Part A of Annex 6, and
- (c) in the case of food offered for sale using a minced meat designation as a name—
 - (i) Article 17(5),
 - (ii) point 1 of Part B of Annex 6, and
 - (iii) point 3 of Part B of Annex 6, as read with regulation 4 and Schedule 2.

(2) This regulation applies to a food that—

- (a) is offered for sale to a final consumer or to a mass caterer, and
- (b) is prepacked for direct sale.

(3) The particulars in paragraph (1) must be provided directly on the package or on a label attached to the package, except in the case of an offer for sale made by means of distance communication.”

(6) In regulation 10(1) (offence)—

- (a) in sub-paragraph (b), omit “or”;
- (b) after sub-paragraph (b) insert—
“*(ba)* regulation 5A(1)(b); or”.

(7) In regulation 12 (application of provisions of the Act), in paragraph (1)(a)—

- (a) after paragraph (ii), insert—
“*(iia)* regulation 5A(1);”;
- (b) after paragraph (iii), insert—
“*(iiia)* regulation 6A(1) or (3);”.

(8) In Schedule 1 (provisions of these Regulations that contain ambulatory references to FIC or Regulation 828/2014 by virtue of regulation 2(3)), insert the following entries into the appropriate places—

- “Regulation 5A(1)”;
- “Regulation 6A(1)”.

(9) Yn Atodlen 4 (cymhwyso ac addasu darpariaethau'r Ddeddf), yn Rhan 1, ym mharagraff 1, yn adran 10(1A)(d) wedi ei haddasu—

- (a) ar ôl is-baragraff (i) mewnosoder—
“(ia) regulation 5A(1);”;
- (b) ar ôl is-baragraff (ii) mewnosoder—
“(ia) regulation 6A(1) or (3);”.

(9) In Schedule 4 (application and modification of provisions of the Act), in Part 1, in paragraph 1, in the modified section 10(1A)(d)—

- (a) after sub-paragraph (i) insert—
“(ia) regulation 5A(1);”;
- (b) after sub-paragraph (ii) insert—
“(ia) regulation 6A(1) or (3);”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
13 Mawrth 2020

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
13 March 2020

©©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202003131009 03/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/295>

ISBN 978-0-348-20532-9



9 780348 205329